Gwerth yr arian

(gwerth unigolyn)

Roeddwn i'n sgwrsio efo criw o fechgyn a merched ifanc oddeutu'r pymtheg oed yn ddiweddar a sôn oedden ni am bêl-droed. Pob un ohonyn nhw â diddordeb mawr yn y gêm. A dyma ofyn faint ohonyn nhw fyddai'n rhoi'r byd yn grwn am gael chwarae i dîm pêl-droed enwog. Pob un o'r bechgyn ac ambell un o'r genethod hefyd! A dyma ofyn pam, a dyma un ohonyn nhw'n ateb heb flewyn ar dafod, "I wneud digon o arian". Ateb gonest iawn.

Mae hi'n anhygoel faint o arian mae'r timau mawr yn barod i dalu am chwaraewyr. Ym 1979, ysgydwyd y byd pêl-droed drwyddo draw pan benderfynodd Nottingham Forest dalu miliwn o bunnau am Trevor Francis o dîm Birmingham City. Rheolwr Nottingham Forest ar y pryd oedd yr enwog Brian Clough a chredai ef yn bendant fod Francis yn werth yr arian mawr. Ymhen dim amser sgoriodd Francis y gôl fuddugol yn ffeinal Cwpan Ewrop. Heb os, roedd Francis y diwrnod hwnnw yn werth llawer mwy na miliwn o bunnau.

Aeth Clough yn ei flaen i ddweud, "Mi fydd timau'n gorfod talu llawer iawn mwy na miliwn o bunnau am chwaraewyr o hyn ymlaen." Gwireddwyd ei eiriau. Erbyn heddiw, gyda'r timau'n derbyn arian mawr oddi wrth gwmnïau teledu lloeren, mae'r arian tu hwnt i bob rheswm. Meddyliwch am dîm Chelsea! Efo miliwnydd fel Roman Abramovich wrth y llyw mae popeth yn bosibl. Ond a oes yna unrhyw chwaraewr sy'n werth yr holl arian?

Pan oedd Wayne Rooney yn 18 oed, ar ddechrau tymor 2004-05, talodd Manchester United dros 25 miliwn i Everton amdano. Ydi hynny'n golygu fod Rooney yn fwy gwerthfawr yng ngolwg Manchester United na David Beckam a werthwyd i Réal Madrid am ffi tipyn is yn 2003, neu'n llai gwerthfawr na Rio Ferdinand a ddaeth o dîm Leeds United yn 2002 am fwy o arian? A beth am gyflogau chwaraewyr? Mae rhai ohonyn nhw'n derbyn dros £80,000 o bunnau'r wythnos. Lluosogwch chi'r ffigwr yna â 52 ac fe welwch beth yw eu cyflogau mewn blwyddyn. Gwnewch chi'r sym.

Felly dyma godi cwestiwn – sut ydan ni'n rhoi gwerth ar bobl? Beth yn union ydi gwerth unrhyw un? Mae'r cyfan yn dibynnu ar y berthynas sydd rhyngom a phobl eraill. I reolwyr y timau pêl-

droed mae chwaraewr yn werth miliynau o bunnau oblegid fod ganddo allu a sgiliau fel pêl-droediwr. Pa mor bwysig ydi teulu a ffrindiau i ni? Tybed a oes yna bethau na all arian eu prynu?

Adnod: "Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid." Rhufeiniaid 5:8

Gweddi: Diolch i Ti, O Dduw, fy mod yn cyfri i ti. Diolch fy mod yn werthfawr yn dy olwg. Helpa fi i fyw fy mywyd fel y gallaf adlewyrchu'r gwerth rwyt ti yn ei roi arnaf ac i wneud fy ngorau bob amser. Helpa fi hefyd i sylweddoli fod gennyt ti feddwl y byd o bawb, hyd yn oed y rhai rydw i yn eu condemnio a'u dirmygu. Amen.

Trafod:

- Ydi chwaraewyr pêl-droed yn haeddu cyflog o £80,000 a mwy yr wythnos?
- Ydach chi'n credu bod timau pêl-droed yn gwneud digon dros blant ac ieuenctid sydd eisiau dysgu'r sgiliau sylfaenol?